Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Adran Archwiliad a Sicrwydd

Adroddiad: Dilysu Safonau Gofal Iechyd yng Nghymru (Safonau Craidd)

2008 / 2009

Terfynol

Archwilio Mewnol

Awdur: John Roberts

Dave Harries

Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	
Cyflwyniad	3
Amcan	3
Cwmpas a Dulliau	3
Canfyddiadau	4
Sicrwydd a Chanlyniad	7
Y Ffordd Ymlaen	8

Sylwer:

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Mae adroddiadau'n cael eu paratoi mewn cytundeb â Strategaeth a Chylch Gorchwyl yr Adran Archwiliad a Sicrwydd, ac wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae adroddiadau'n cael eu paratoi gan staff Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, a'u cyfeirio at gyfarwyddwyr anweithredol neu swyddogion yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi'u dynodi'n swyddogion cyfrifo neu swyddogion atebol. Fe'i paratoir ar gyfer defnydd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru yn unig, ac nid yw archwilwyr yr Adran Archwiliad a Sicrwydd yn atebol i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Cyflwyniad

1. Mae Safonau Gofal Iechyd yng Nghymru yn darparu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a sefydliadau partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol o ansawdd ym mhob sefyllfa gofal iechyd.
2. Mae'r fframwaith hunanasesu yn galluogi sefydliadau i arddangos eu haeddfedrwydd ac i ba raddau maent yn cydymffurfio â Safonau Gofal Iechyd yng Nghymru.
3. Mae cyfanswm o 32 o safonau ac mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gwblhau'r dull hunanasesu ar gyfer pob un. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd, yn seiliedig ar Brofiad Corfforaethol, Gweithredol y Defnyddiwr, yn cael ei ddefnyddio i fesur perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn pob Safon.
4. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ymateb i set o gwestiynau ar gyfer pob Safon, ac mae'n rhaid cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r ymatebion a gyflwynir. Lle nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cwrdd â'r meini prawf yn llawn mae'n rhaid cynnwys cynllun gweithredu yn nodi sut mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion, enwebu swyddog i arwain a chynnwys dyddiad cwblhau.
5. Cyfyngwyd yr adroddiad hwn i Safonau 14, 16, 27 a 28 Adran Rheolaeth Gofal Iechyd y Safonau, yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2008) 001 - Asesiad Safonau Gofal Iechyd 2007-2008.
6. *Nodwyd pan oedd yr arolwg yn cael ei wneud, nad oedd peth o'r dystiolaeth ar gael ar y wefan. Rydym yn deall mai mater technegol gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru oedd y rheswm dros hyn ond rydyn ni wedi cynnwys manylion ynghylch y dystiolaeth nad oedd ar gael.*

Amcan

7. Adolygu bod gan yr Ymddiriedolaeth fecanwaith cryf ar gyfer casglu, adolygu a chyflwyno data i Safonau Gofal Iechyd yng Nghymru.
8. Bod y sefydliad wedi Rheoli Ansawdd y dystiolaeth a gasglwyd a'r deilliannau a benderfynwyd arnynt cyn ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
9. Adolygu bod gan ganlyniadau'r hunanasesu gysylltiad amlwg â thystiolaeth.
10. Sicrhau bod Cynlluniau Gwella cynhwysfawr wedi cael eu datblygu yn dilyn y cyflwyniad.
11. Sicrhau bod y Bwrdd yn gwybod digon am broses safonau Gofal Iechyd Cymru.

Cwmpas a Dulliau

12. Cyflawnwyd asesiad i ganfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi:
    - Darparu hyfforddiant ar y broses hunanasesu safonau gofal iechyd;
    - Darparu canllawiau/gweithdrefnau ar gyfer y staff oedd yn casglu'r dystiolaeth i'w gyflwyno;
    - Sefydlu fforymau lle gellid trafod materion arwyddocaol neu bryderon a gafwyd wrth gasglu'r dystiolaeth.
13. Sefydlwyd a chofnodwyd rheoli ansawdd y broses gyflwyno. Ymhlith y materion a adolygwyd oedd: -

- A oes gan y rhai sy'n gwneud y Sicrwydd Ansawdd ddigon o awdurdod o fewn y sefydliad ac a oes ganddynt yr wybodaeth a'r profiad perthnasol.
- Oes yna drywydd archwilio i adnabod lefel y Sicrwydd Ansawdd a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau sy'n dilyn;
- Pwy sydd wedi darparu'r gymeradwyaeth derfynol cyn ei gyflwyno, a oes ganddynt statws digonol o fewn y sefydliad.

14. Cynlluniau Gwella

- Cafwyd copïau o'r cynlluniau gwella ac fe'u hadolygwyd i sicrhau bod y meysydd a nodwyd sydd angen gwella yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwella;
- Fe'u hadolygwyd er mwyn sicrhau bod gan bob eitem berthnasol yn y Cynllun Gwella ganlyniadau clir y gellid eu mesur, bod swyddog wedi'i apwyntio'n gyfrifol am bob eitem, a bod dyddiad cwblhau wedi'i osod.

15. Ymrwymiad y Bwrdd

- Cafwyd copïau o gofnodion y Bwrdd lle cafodd Safonau Gofal Iechyd eu trafod;
- Sefydlwyd mai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth oedd yr Aelod o'r Bwrdd â chyfrifoldeb gyffredinol dros y Safonau Gofal Iechyd.

Canfyddiadau

16. Isod mae canfyddiadau manwl ein harolwg wedi'u nodi yn erbyn y Safonau.

Safon 14

17. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r ymateb rheolaeth a gofnodwyd i'r safon yn cynnal y sgôr cyffredinol 4 - Ymarfer.
18. Er hynny rydyn ni wedi nodi'r materion canlynol sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u cynnwys yn y cynllun gwella.

14.1 (Corfforaethol)

- Rydyn ni'n credu na ddylid cynnwys y cyfeiriad at yr Uned Hyfforddiant Busnes Statudol a Gorfodol gan nad oedd yn weithredol yn ystod y flwyddyn.

14.2 (Corfforaethol)

- Nid ydy'r naratif sy'n dweud bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu systemau rheoli mewnol allweddol yn nodi sut mae'r arolwg yn cael ei gyflawni na phwy sydd wedi penderfynu beth ydy'r system reoli allweddol.

14.2 (Canlyniadau Gweithredol a/neu Glinigol)

- Nid oes tystiolaeth yn nodi sut mae'r pecynnau hyfforddi diogelwch y cyfeirir atynt yn cael ei rhaeadru i'r holl staff, neu'r nifer o staff sydd wedi cael hyfforddiant.

Safon Tystiolaeth 14: Polisïau a nodwyd sy'n hwyr yn cael eu hadolygu

- Polisi Diogelwch Tân (Chwefror 2007);
- Rhestr Polisi Rheoli Risg a gyflwynwyd (nodwyd bod rhai wedi dyddio).

Safon Tystiolaeth 14: Ni ddarganfuwyd ffeiliau

- Adroddiad Archwiliad Côd Tân Cymru Gyfan.

Safon 16

19. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r cofnod o ymateb y rheolwyr i'r safon yn ymddangos ei fod yn cynnal y sgôr cyffredinol 4 - Ymarfer.
20. Er hynny rydyn ni wedi nodi'r materion canlynol sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u cynnwys yn y cynllun gwella.

16.1 (Corfforaethol)

- Nid oes manylion wedi'u cynnwys ynghylch pa mor aml mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiadau perfformiad gan Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - yr adroddiad manwl diwethaf a gyflwynwyd oedd Ebrill i Medi 2007.
- Ni ddylid cynnwys cydymffurfiad â safonau Rheoli Risg Cymru (WRMS) 3 fel tystiolaeth ar gyfer 2007/08 gan na chyflawnwyd yr un adolygiad gan y Pennaeth Archwiliad a Sicrwydd.
- Nid oes tystiolaeth wedi'i gofnodi bod grŵp cyfoedion wedi profi a gwerthuso anghenion hysbysu ynghylch digwyddiadau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

16.1 (Gweithredol)

- Nid oes tystiolaeth yn nodi pa mor aml ac i bwy mae Uwch Nyrsys Rheolaeth Glinigol yn darparu hyfforddiant gyda thargedau ynglŷn â materion yn ymwneud â digwyddiadau clinigol anffafriol.

16.2 (Gweithredol)

- Nid oes tystiolaeth yn nodi sut mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod Polisi RM03 yr Ymddiriedolaeth yn cael ei raeadru i'r holl staff, lle bo'n briodol, ynghylch achosion NPSA y gellid eu hysbysu.

16.3 (Gweithredol)

- Nid oes tystiolaeth wedi'i gofnodi yn dangos sut mae'r Pennaeth Nyrsio yn rhaeadru materion NPSA i lefel ward.

Tystiolaeth Safon 16: Polisïau a nodwyd sy'n hwyr yn cael eu hadolygu

- Cyflwyniad Ymgynghorwyr - Achosion Anffafriol (Ionawr 2007)
- HRP 35 – Polisi Cyflwyniad (Ebrill 2004)

Safon Tystiolaeth 16: Ni ddarganfuwyd ffeiliau

- E-bost - NPSA Newyddion Chwefror-Mawrth
- E-bost - Llenyddiaeth Diogelwch Cleifion Diweddaraf NPSA

Safon 27

21. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r ymateb rheolaeth gofnodedig i'r safon yn ymddangos ei fod yn cynnal y sgôr cyffredinol 4 - Ymarfer.
22. Er hynny rydyn ni wedi nodi'r materion dilynol sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u cynnwys yn y cynlyn gwella.

27.1 (Gweithredol)

- Ni ddylid cynnwys cydymffurfiad â WRMS 2007/2008 fel tystiolaeth ar gyfer 2007/2008 gan na chyflawnwyd yr un adolygiad gan y Pennaeth Archwiliad a Sicrwydd yn 2007/2008.
- Ni ddarparwyd tystiolaeth ar gynnydd Rhaglen Dreigl 3 blynedd Rheolaeth Glinigol.

27.2 (Profiad Defnyddiwr)

- Buasem yn awgrymu y dylid cyfeirio at ochr staff yn hysbysu'r Bwrdd Partneriaeth ar Reolaeth Ariannol.

27.4 (Profiad Defnyddiwr)

- Nid oes tystiolaeth na naratif yn amlinellu sut mae staff yn adrodd yn ôl ar le maent wedi adnabod risg a pha gamau sydd wedi'u cymryd.

Tystiolaeth Safon 27: Polisïau a nodwyd sy'n hwyr yn cael eu hadolygu

- RM01 - Strategaeth Rheoli Risg (Chwefror 2007)
- F35 Safonau Ymddygiad (Chwefror 2005)
- F38 Cyfarwyddyd ar Gofrestru Buddiannau Gweithwyr (Ionawr 2008)
- F2 Cynnal Busnes ar gyfer Staff GIG (Ionawr 2008)
- HRP7 Polisi Chwythu'r Chwiban (07/08)
- Polisi'r Amgylchedd (Mawrth 2007)
- G15 – Protocol Rhannu Gwybodaeth Cyffredinol (Mawrth 2006)
- Cynllun Digwyddiadau Mawr (Tachwedd 2007)

Safon Tystiolaeth 27: Ni ddarganfuwyd ffeiliau

- BSP Cymeradwyaethau Anfoneb
- Adroddiad Archwilio Clinigol Blynyddol 2006/07
- LCFS Adroddiad Dangosyddion Cyfansawdd (07/08)
- Cofnodion Pwyllgor Archwilio Hydref 2007 – Cofnodion Pwyllgor Dyfeisiau Meddygol Agored
- Adroddiad Archwiliad Côd Tân Cymru Gyfan
- Cofnodion ailgyflenwi BYN Mai 07
- Cofnodion Gwella Gwasanaeth Medi 2007
- Papur: Cyflawni targedau allweddol Iechyd meddwl oedolion
- Cylch Gorchwyl HSCWB
- Drafftio prisio cylch gorchwyl

Safon 28

23. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r ymateb rheolaeth gofnodedig i'r safon yn ymddangos ei fod yn cynnal y sgôr cyffredinol 4 - Ymarfer.

24. Er hynny rydyn ni wedi nodi'r materion dilynol sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u cynnwys yn y cynlyn gwella.

Tystiolaeth Safon 27: Polisïau a nodwyd sy'n hwyr yn cael eu hadolygu

- Polisi Ffliw Adar (Rhagfyr 2006)
- HRP35 – Polisi Cyflwyniad (2004)
- RM01 - Strategaeth Rheoli Risg (Chwefror 2008)
- RM02 - Strategaeth Rheoli Risg Glinigol (Chwefror 2005)

Safon Tystiolaeth 27: Ni ddarganfuwyd ffeiliau

- Calendr Sicrwydd
- Adroddiad HIW - Adolygiad o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru (Chwefror 2007)
- Cynllun Gweithredu – DGM/HON (Chwefror 2006)
- Cyflwyniad P Diegling ICP'S
- Swyddfa Rhanbarth – Adroddiad Eithrio
- Cynllun Gweithredu – DVD Kim & Aggie
- Y diweddaraf ar ICP

Sicrwydd a Chanlyniad

25. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad, gall Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd arwyddocaol ar baratoi a chyflwyno yn erbyn pedwar Safonau craidd Gofal Iechyd yng Nghymru.

26. Mae'r lefel sicrwydd cyffredin a ellir ei neilltuo i adolygiad yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol ydy'r canfyddiadau yn erbyn yr amcanion adolygu penodol ac felly dylai gael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw.

27. Er mwyn darparu mwy o eglurder rhwng lefel y sicrwydd sy'n cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a barn Pennaeth Archwiliad a Sicrwydd, mae'r un diffiniadau wedi'u defnyddio i werthuso'r aseiniadau unigol sy'n cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

28. Diffiniad sicrwydd arwyddocaol ydy bod rhai gwendidau yn y cynllun a/neu weithredu rheolau a all amharu ar gyflawni amcanion y system, pwrpas neu broses. Er hynny, un ai byddai'r effaith yn fach neu byddant yn annhebygol o ddigwydd.

29. Er mwyn cefnogi'r sicrwydd barn hwn, mae'r canlynol wedi cael ei ystyried:

- Cyflawni'n well yn erbyn y Cynllun Gwella.
- A yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r Safonau Gofal Iechyd diweddaraf.
- Bod cefnogaeth ddigonol wedi'i ddarparu sy'n galluogi staff gwblhau'r Safonau o fewn graddfa amser penodol yr Ymddiriedolaeth.

- Mae Sicrwydd Ansawdd a chymeradwyaeth derfynol y Safonau wedi'i bennu gan yr arweinydd Cyfarwyddwr Gweithredol addas a'i gadarnhau fel y cyfryw, drwy e-bost, i'r Prif Weithredwr a/neu Cyfarwyddwr Gweithredol nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Cofnodwyd tystiolaeth i gadarnhau'r ymatebion a ddarparwyd, ac eithrio dogfennau nad ydynt ar gael oherwydd materion technegol gyda llwytho i fyny ar y wefan.

30. Rydyn ni wedi adnabod nifer o feysydd lle nad yw'r camau gweithredu a nodwyd o fewn y cynllun gwella a gyflwynwyd wedi'u cwblhau o fewn y raddfa amser benodol.

31. Mae nifer y camau gweithredu sydd wedi'u cario i'r flwyddyn gyfredol yn achosi pryder, ond nid yw'r sgôr hunanasesu wedi cyfrif am ddiffyg gweithredu'r cynllun gweithredu.

32. Byddem yn annog pob arweinydd Gweithredol i sicrhau eu bod yn dilyn eu cynlluniau gwella unigol i fyny yn fanwl a herio arweinyddion perthnasol yn unol â hynny.

33. Rydyn ni hefyd wedi nodi bod rhai camau gweithredu wedi'u dileu o gynllun gwella 2007/2008 ond heb eu gweithredu – Rydyn ni'n credu dylai'r arweinydd Gweithredol perthnasol herio dileu o'r fath neu gwestiynu pam eu bod wedi'u cynnwys yn wreiddiol.

34. Yn arbennig, o fewn Safon 16, roedd argymhellion adroddiad archwilio tagio babanod i fod i gael profion yn ystod y nos - Nid oes unrhyw arwydd bod hyn wedi'i wneud ac nid yw wedi'i gynnwys yn y cynllun gwella eleni.

    At hynny, nid ydyn ni wedi llwyddo i ddod o hyd i dystiolaeth/cynnydd ar y 'Newyddlen Dysgu Gwers' neu lwybr sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a gofnodwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg - mae'r ddau gam gweithredu hwn wedi'u tynnu oddi ar gynllun gwella 2007/2008.

35. Tra bod cyfeiriad yn cael ei wneud at Safonau Gofal Iechyd - Datganiad Sicrwydd yng nghofnodion y Bwrdd yn 2007/2008, rydym yn nodi nad oes adroddiadau cynnydd wedi'u cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth neu fod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn y cyfle i holi Arweinyddion Gweithredol ynghylch cynnydd.

36. Mae cofnod 4.1 o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2008 yn nodi *"rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddent yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd"* Rydyn ni o'r farn y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth fod wedi derbyn diweddariadau drwy 2007/2008 er mwyn cwestiynu'r cynnydd yn erbyn y cynllun gwella.

Y Ffordd Ymlaen

37. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan Arweinydd Gweithredol y Safonau Gofal Iechyd.

38. Mae proses yn cael ei gynllunio ar draws yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Polisïau a Gweithdrefnau yn amodol ar adolygiad rheolaidd, yn ôl y dyddiadau adolygu cofnodedig.

39. Mae proses archwiliad a chwestiynu rheolaidd wedi'i osod o fewn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Arweinyddion Gweithredol a Safonol yn symud ymlaen â'u cynlluniau gweithredu cofnodedig o fewn y raddfa amser benodol a gofnodwyd.